| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Tachwedd 2017 | **Archwiliad o'r cynllun gwella blynyddol**<br>Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig yr Awdurdod ar gyfer cyflawni amcanion gwella. | Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran adrodd ar welliant. | Dim |
| Gwaith dilynol 2016-17 | **Adolygiad o drefniadau rheoli asedau - cyhoeddwyd ym mis Hydref 2017**<br>Yn ystod 2016-17 gwnaethom ni adolygu effeithiolrwydd dull yr Awdurdod o reoli ei dir a'i adeiladau gan gynnwys rhannu cyfleusterau. Gwnaethom ni waith dilynol ar gynnydd y llynedd. | Cyfarfu'r Grŵp Cydweithio Asedau Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ddiweddar, a chadeiriwyd hyn gan aelod o Gyngor Sir Gâr sy'n aelod o'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol (GAC).<br>Cytunwyd y bydd y fforwm hwn yn cyfrannu at agenda GAC ac yn ceisio adolygu'r data meincnodi i lywio rhaglen dangosyddion allweddol. Un o'r materion a amlygwyd oedd diffyg data da, felly cafwyd consensws yn y grŵp y byddai cais am gymorth yn cael ei wneud ar y cyd i Lywodraeth Cymru. | Dim |
| **Adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio** | | | |
| **Nid oes unrhyw adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio wedi'u cynnal yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.** | | | |

